# WILLIAMS, EVAN (1816 - 1878), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac arlunydd

**Enw:** Evan Williams
**Dyddiad geni:** 1816
**Dyddiad marw:** 1878
**Priod:** Frances Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac arlunydd
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth; Crefydd
**Awdur:** Edward Morgan Humphreys

Ganwyd c. 1816, brodor o Ledrod, Sir Aberteifi. Bu'n genhadwr ymhlith Cymry Llundain am tua phedair blynedd. Dechreuodd bregethu yn yr Wyddgrug yn 1848; daeth i Gaernarfon i fyw yn 1851 ac ordeiniwyd ef yn 1859. Bu farw 2 Hydref 1878, yn 62 oed. Ni bu ganddo ofal eglwys. Yr oedd yn fwy adnabyddus fel arlunydd (' Evan Williams y limner ' oedd yr new arferol arno), a phaentiodd ddarluniau o amryw o'i gyfoedion, megis ' Eben Fardd,' Dafydd Jones (Treborth), ac Edward Morgan, y Dyffryn. Yn ei ddarluniau o olygfeydd natur y ceir ei waith gorau, yn enwedig ei ddarluniau o fynyddoedd a llynnoedd yn Eryri. Bu ganddo gyfres o ysgrifau diddorol ar ' Y Gelfyddyd o Arlunio ' yn *Y Traethodydd* o Hydref 1848 hyd Hydref 1849. Y mae ei fedd ym mynwent Caeathro, ger Caernarfon. Gweler John William Prichard (1749-1829)

## Awdur

**Edward Morgan Humphreys**, (1882 - 1955)

## Ffynonellau


Richard Owen, Bethesda, yn *Y Goleuad*, 19 Hydref 1875

W. Hobley, *Hanes Methodistiaeth Arfon*, iii, 3

Edward Jones, *Y gymdeithasfa yn cynnwys gweithrediadau cymdeithasfa chwarterol y Methodistiaid Calfinaidd yn ngogledd Cymru, a'r gymanfa gyffredinol ynghyda'r ordeiniadau gweinidogaethol, a'r arholiadau cymdeithasfaol, yn y gogledd a'r deheudir, hyd y flwyddyn 1890* (Caernarfon 1891)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804701


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu